OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 2

### Mewnforion o drydydd gwledydd

**Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â thystysgrifau**

**15.**—(1) Mewn perthynas â thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda deunydd perthnasol hysbysadwy o dan erthygl 7—

(a) rhaid ei bod wedi ei llenwi ddim mwy na 14 o ddiwrnodau cyn dyddiad anfon y llwyth o ddeunydd perthnasol y mae'n mynd gydag ef;

(b) rhaid ei bod wedi ei dyroddi gan gorff swyddogol cyfrifol neu sefydliad gwarchod planhigion cenedlaethol y wlad yr allforir neu yr ailallforir ohoni yn unol â darpariaethau Erthygl V(1) o'r CRhWP;

(c) rhaid ei bod wedi ei llenwi gan swyddog awdurdodedig;

(d) rhaid ei bod wedi ei dyroddi yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd;

(e) pan fo wedi ei dyroddi mewn iaith ac eithrio Saesneg, rhaid iddi ymgorffori cyfieithiad i'r Saesneg, neu rhaid i gyfieithiad i'r Saesneg fynd gyda hi ac, os yw'r cyfieithiad yn ddogfen ar wahân i'r dystysgrif, rhaid ei bod wedi ei llenwi a'i llofnodi gan swyddog awdurdodedig;

(f) rhaid ei bod wedi ei chyfeirio at y "Plant Protection Organisations of the Member States of the European Union"; ac

(g) rhaid iddi gael ei llenwi mewn teipysgrif neu briflythrennau.

(2) Pan fo, mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A neu C o Atodlen 4, un neu ragor o ofynion eraill wedi eu pennu mewn cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A neu C o'r Atodlen honno, rhaid i'r dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio a ddyroddir mewn cysylltiad ag unrhyw ddeunydd perthnasol o'r disgrifiad hwnnw bennu, o dan y pennawd "Additional declaration", ba ofyniad penodol y cydymffurfiwyd ag ef gan gyfeirio at y lleoliad perthnasol yn Adran I o Atodiad IV Rhan A neu Atodiad IV Rhan B.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 15 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/03/2019. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018, Adran 15.